**Agorawd i'r Tylwyth Teg** – Boi Sacsoffon

Mae 'Boi Sacsoffon' yn gyfansoddwr galluog, yn llawn syniadau. Ysgrifennodd ei *Agorawd i'r Tylwyth Teg* i ensemble chwyth gyda thelyn, sy'n gyfuniad anarferol ac effeithiol. Mae'r newidiadau cymeriad sydyn o adran i adran yn annisgwyl i ddechrau, hyd nes iddi ddod yn glir - os ydw i'n tybio'n iawn - mai agorawd i opera neu sioe gerdd ydy hon sy'n cyflwyno amrywiol themáu o'r cyfanwaith (*pot-pourri*). Yn wir, ar gyfer perfformio'r gwaith hwn ar ei ben ei hun mi ellid ystyrid hepgor yr adran ergydiol Steve Martland-aidd, ar gyfer ei ddefnyddio'n sail i ddarn arall; ond dydy hyn ddim yn tynnu oddiar y ffaith mai dyma'r cyfansoddiad sy'n sefyll allan o ran gwreiddioldeb a dyfeisgarwch.

**Ysblennydd Eryri –** Boris G.

Darn i'r piano, wedi ei gyfansoddi'n gwbwl idiomatig i'r offeryn. Cawn gychwyniad atmosfferig dros ben, ond tybed a ydy'r rhythmau ergydiol sy'n dilyn efallai'n awgrymu cyffro yn hytrach nag ysblander? Efallai y byddai teitl yn awgrymu aml-ochredd dramatig Eryri yn gweithio'n well – dim ond awgrym. Hoffais yr arddull pan-ddeiatonig, sy'n dangos bod gan yr ymgeisydd ei lais ei hun. Er bod y darn braidd yn rhy rhapsodig, mae'r brif thema 4-nodyn, sy'n ymddangos mewn sawl gwisg, yn clymu'r darn at ei gilydd.

**Pan ddawnsia'r goedwig a'r mynydd –** Dishgled

Darn i ffidil a phiano sy'n dangos bod gan y cyfansoddwr wybodaeth graff o'r ffordd i gyfansoddi'n idiomatig ar gyfer y ddau offeryn. Mae'r harmoni yn Ramantaidd, a'r alaw'n llifo'n hwylus iawn, gyda dawns werinol yn cyflwyno'i hun yng nghorff y cyfansoddiad. Mae'n amlwg ein bod yng nghwmni cyfansoddwr medrus a phrofiadol; yr hyn sydd ei angen yn awr ydy iddo ef neu hi ddarganfod ei lais/llais cerddorol ei hun.

**Datblygiad hap yn F# Leiaf** – Yr Esgair

Diddorol iawn oedd gweld cyfansoddiad i bedwarawd o offerynnau taro yn y gystadleuaeth hon, a llongyfarchiadau i'r cyfansoddwr am ddewis y cyfuniad diddorol hwn. Mae'n amlwg ei fod/bod yn ymwybodol o dechnegau estynedig yr offerynnau, fel y gwelir o'r defnydd o fwa ar y feibraffon. Mae'r arddull wedi'i wreiddio mewn minimaliaeth, ac felly yn fwriadol ail-adroddus ac mewn rhythmau cyfartal, ond mi ellid bod wedi gwneud mwy o hanfodion yr arddull (e.e. y newid graddol mewn cyd-symud rhwng offerynnau).

**Herwyr y Gorllewin** – Cerddor yr Hafod

Mae gan y cyfansoddwr hwn wybodaeth feistrolgar o'r gerddorfa a cherddorfáeth, ac mae'n brofiad trawiadol i weld ysgrifennu mor aeddfed mewn cystadleuaeth ieuenctid. Mi fyddai'r darn yn addas iawn fel arwyddgan ffilm "Spaghetti Western"! Mae'r lliwiau offerynnol i gyd yno, a'r teitl, wrth gwrs, yn ein harwain i'r cyferiaid cywir. A dweud y gwir, ychydig yn fyr ydy'r gwaith ar gyfer prif gystadleuaeth fel hon, ond mae gen i ofn mai'r rheswm nad oes modd ei wobrwyo ydy na ellir ystyried cerddorfa (yn enwedig cerddorfa mor fawr ag y gelwir arni yn y fan hyn) yn 'ensemble'. Mae gan yr ymgeisydd hwn ddyfodol sicr mewn cyfansoddi.

**Romance** – Nodau gwynion

Darn i soddgrwth a phiano, sy'n dangos bod gan y cyfansoddwr hwn wybodaeth drylwyr o dechneg a rhagoriaethau'r ddau offeryn. Rydw i'n siŵr y byddai cynulleidfa'n cael ei swyno o glywed y darn hwn yn cael ei berfformio – mae'n adleisio gweithiau gan Chopin neu Field yn fedrus iawn.

Ond yn y gystadleuaeth hon roeddwn yn chwilio am gyfansoddwyr allai ddangos eu bod nhw'n datblygu eu lleisiau eu hunain, a rydw i'n sicr – o weld talent cerddorol amlwg yr ymgeisydd hwn – y daw hynny iddo/iddi yn y man.

**El Baile del Viento** (Dawns y Gwynt) – Dishgled Arall

Yn y darn hwn i sacsoffon alto a phiano mae'r ymgeisydd yn galw am berfformiad yn ysbryd y fflamenco (y gair anghyfieithadwy hwnnw 'duende'), ac mae'r gwaith ei hun yn cynnig digonedd o gyfle i wneud hynny gyda'i dinciau Lladin-Americanaidd. Mae'n creu lliwiau arbennig gydag amrywiaeth gwead, ac yn creu egni arbennig yn yr adrannau cyflym. Fel pawb yn y gystadleuaeth hon, mae'n dangos gwybodaeth eithriadol o nodweddion yr offerynnau, ac yn gwneud yn fawr ohonyn nhw.